



Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23

YMATEB GAN CGGC

1. [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#) (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.
2. Rydym wedi ymgynghori'n eang ar draws y sector gwirfoddol wrth lunio'r ymateb hwn ac yn falch o gael y cyfle i fwydo ystod eang o leisiau'r sector i mewn i'r gwaith o gynllunio ar gyfer Cyllideb ddrafft 2021-22. Diolchwn i amrywiaeth o fudiadau, gan gynnwys Plant yng Nghymru, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Benfro, Cymorth Cymunedol Llanfair-ym-Muallt, Mudiad Meithrin, y Groes Goch Brydeinig, Cytun, Age Well Hwyllog Môn, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru ac eraill, ynghyd â nifer o unigolion a ymatebodd yn breifat.

PRIF BWYNTIAU

3. Er bod yr ymateb hwn yn nodi nifer o argymhellion ar gyfer Cyllideb ddrafft 2022-23, dyma'r rhai mwyaf tyngedfennol yn ein tyb ni. Ymhelaethir ar bob un o'r pwyntiau hyn mewn man arall.
 - Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gwasanaethau'r sector gwirfoddol yn y Gyllideb nesaf a chynnig cylchau cyllido mwy hirdymor o dair blynedd neu ragor er mwyn helpu'r sector i fod yn fwy diogel a chynaliadwy.
 - Yn ystod y pandemig, gwnaeth cyllid gyrraedd y rheini a oedd ei angen yn llawer cyflymach. Rhaid i hyn barhau wrth i ni symud ymlaen, gobeithio, o COVID-19.
 - Rhaid i'r gwaith o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd fod yn ganolog i'r holl bolisiau a lunnir gan Lywodraeth Cymru wrth fynd ymlaen. Bydd yr adferiad gwyrdd yn hanfodol i 'ailgodi'n gryfach'.
 - Dylai darparwyr gwasanaethau geisio gweithio'n gydgyhyrchiol gyda chymunedau a'r sector a dylai Llywodraeth Cymru geisio cefnogi hyn lle bynnag y bo modd.
 - Mae buddsoddi ymhellach mewn presgripsiynu cymdeithasol yn hanfodol.
 - Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n llawn â'r sector gwirfoddol wrth i'r cyllid Ewropeaidd ddod i ben.

- Dylai Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn angor i unrhyw gynlluniau i 'ailgodi'n gryfach'

YN EICH BARN CHI, BETH OEDD EFFAITH CYLLIDEB 2021-22 LLYWODRAETH CYMRU, GAN GYNNWYS CYLLID SY'N GYSYLLTIEDIG Â COVID-19?

4. Bu ffrydiau cyllido brys fel Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector a Chronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol yn achubiaeth o ran eu cyflymder a'u hyblygrwydd. Fodd bynnag, mae elfen o 'sefyll ar y dibyn' yn parhau, lle y mae cyllid brys wedi dod i ben neu leihau, ond oherwydd cyfyngiadau parhaus o ran gweithgareddau codi arian, ynghyd â diffyg hyder ymhlith y cyhoedd, nid yw'r incwm a gynhyrchir wedi dychwelyd i'r lefelau yr oeddent cyn y pandemig o hyd. Felly, mae llawer o fudiadau'n parhau i wynebu anawsterau, er bod llawer llai o fudiadau wedi cau nag y disgwyliwyd ar ddechrau'r pandemig.
5. Roedd symleiddio'r prosesau cyllido drwy gydol y pandemig er mwyn sicrhau bod cyllid yn cyrraedd ei gyrchfan yn gyflym yn effeithiol tu hwnt a chroesawyd hyn ar draws y sector. Mae'n hanfodol fod hyn yn parhau ac nad ydym yn dychwelyd i'r prosesau mwy beichus a oedd ar waith yn flaenorol.
6. Fodd bynnag, mae'r ansefydlogrwydd a achosir gan gylchau cyllido un flynedd yn parhau, gan achosi llawer o ansicrwydd drwy gydol y sector. Mae'r cylchau hyn yn ei gwneud hi'n anodd cynllunio ar gyfer y dyfodol, yn ei gwneud hi'n anodd denu staff newydd ac yn creu pwysau diangen ar staff sydd eisoes yn gweithio i fudiadau sy'n derbyn y cyllid hwn.
7. Yn ôl diweddariad 2021 CGGC ar [Gyllid Cynaliadwy ar gyfer y trydydd sector](#), collodd y sector gwirfoddol yng Nghymru £620 miliwn mewn incwm yn sgil y pandemig. Mae llawer o fudiadau wedi gorfod defnyddio cryn dipyn o'u cyllid wrth gefn, sydd yn ei dro yn effeithio ar eu cynaliadwyedd mwy hirdymor. Y rhai a gafodd eu bwrw waethaf oedd y rheini â ffrydiau cyllido lluosog, fel y sectorau manwerthu a digwyddiadau, a gwnaeth y rheini â chyfrannau uwch o gyllid grant ddod drwyddi'n well.

YN EICH BARN CHI, SUT DYLAU BLAENORIAETHAU LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER 2022-23 NEWID I YMATEB I COVID-19?

8. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllido gwasanaethau a ddarperir gan fudiadau ac elusennau bach yn y sector gwirfoddol, [y mae 67% ohonynt wedi gweld cynnydd mewn galw ers mis Ebrill 2021 \(Saesneg yn unig\)](#) ledled y DU, er bod eu gallu i godi arian wedi'i lesteirio a heb adfer eto i'r lefelau cyn y pandemig. Roedd cyllideb 2021-22 ac arian atodol yn adweithiol gan fwyaf ac yn canolbwyntio ar lenwi'r bylchau ar gyfer gwasanaethau craidd y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol oedd eu hangen i ymateb ar frys yn ystod y pandemig, ond mae angen i gyllideb

2022-23 ganolbwyntio ar yr unigolion sydd wedi'u heffeithio gan oblygiadau iechyd, cymdeithasol ac economaidd y pandemig sy'n ceisio cael yr help arbenigol y mae ein sector yn ei ddarparu. Mae'r alwad hon wedi'i adleisio gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau diwethaf y Senedd yn eu hadroddiad ar ['Effaith Covid-19 ar y sector gwirfoddol'](#): 'Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector gwirfoddol i nodi meysydd ar draws ei gwaith lle gall gwirfoddoli gefnogi'r adferiad, gwasanaethau cyhoeddus a llesiant ar ôl COVID-19.'

9. Mae'r pandemig yn parhau o hyd ac mae pobl yn parhau i wynebu anawsterau o ran caledi ariannol, iechyd meddwl, unigrwydd, diweithdra ac yn ei chael hi'n anodd cael bwyd. Byddai buddsoddiad pellach yn y Gronfa Cymorth Dewisol yn helpu. Rhaid iddi hefyd roi adnoddau i ddarparwyr gwasanaethau gyfeirio pobl at ei gwasanaethau. Fel y nodwyd gan y Groes Goch, mae gormod o bobl o hyd nad ydynt yn gwybod o ble i gael cymorth. Yn ôl eu gwaith ymchwil, ni fyddai 41 y cant o bobl yng Nghymru yn ymwybodol o sut i gael gfael ar gymorth ariannol.
10. Mae buddsoddi mewn presgripsiynu cymdeithasol yn hanfodol i helpu'r rheini sy'n dioddef o unigrwydd ac ynysigrwydd. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r sector gwirfoddol er mwyn helpu i nodi'r unigolion hyn sydd mewn perygl. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau a byrddau iechyd gael cymorth i wneud y gorau o bresgripsiynu cymdeithasol.
11. Mae'n hanfodol bod cyllid yn cael ei roi i brosiectau natur er mwyn cyrraedd targedau cenedlaethol a rhyngwladol a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae COVID-19 yn cynnig cyfle i ehangu swyddi gwyrdd. Dylai holl flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ddangos eu cysylltiadau â'r newid yn yr hinsawdd a'u heffaith ar hyn.
12. Mae'n hanfodol bod y buddsoddiad mewn cymunedau yn parhau, gan ystyried y ffordd y daeth cymunedau ar hyn a lled y wlad ynghyd, gyda chymorth y sector gwirfoddol, i helpu ei gilydd yn ystod y pandemig.
13. Mae mudiadau sy'n ei chael hi'n anodd cadw'u pen uwchlaw'r dŵr angen cymorth i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol. Dylai cyllid cynaliadwy cael ei ymwreiddio yn y gyllideb hon a phob cyllideb yn y dyfodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un yn teimlo'n ynysig am fod gwasanaeth hanfodol yn dod i ben yn sydyn heb olwg o rywbeth arall i gymryd ei le.
14. Rhaid i'r gyllideb ddarparu eglurder ar bontio'r trefniadau o ran y Gronfa Gofal Integredig (ICF) i'r Gronfa Buddsoddiad Refeniw i ddod.
15. Dylai'r rheini sy'n cysgu ar y stryd barhau i gael llety drwy'r Cynllun Pawb Mewn, o leiaf tan fydd y pandemig yn y gorffennol.

16. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gadw at ei hymrwymiaidau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chyflogadwyedd, ansawdd cartrefi a chymorth i sefydlu busnesau.
17. Mae llawer o'r cyllid Ewropeaidd ar fin dod i ben gyda, fel y nodir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, 'cholled anochel o allu ac arbenigedd o'n sector'. Mae'n bur debyg y bydd yn niweidiol tu hwnt i golli'r cyllid hwn wrth i ni geisio adfer o'r pandemig. (Gyda'r ddealltwriaeth hefyd y bydd Llywodraeth y DU, yn ôl pob tebyg, yn cadw rheolaeth o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU). Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i helpu grwpiau i ddechrau a/neu dyfu er mwyn cefnogi ein cymunedau ymhellach, gan gynnwys edrych ar fodolau trawsnewid economaidd cydweithredol, gwerth cymdeithasol a rhai a arweinir gan y gymuned.
18. Amlygwyd gwasanaethau gwaith ieuenctid fel blaenoriaeth bosibl i alluogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau cymorth personol a chymdeithasol. Nodwyd plant a phobl ifanc yn fwy cyffredinol hefyd, gyda Phlant yng Nghymru yn nodi'r angen am gymorth a buddsoddiad parhaus i helpu plant a phobl ifanc i adfer o'r pandemig.
19. Mae llawer o fentrau cymdeithasol wedi gwagio eu cronfeydd wrth gefn yn sylweddol drwy gydol y pandemig, gan eu gadael yn llai gwydn nag o'r blaen, ac wedi gorfod ail-flaenoriaethu camau gweithredu gan nad oes ganddynt y gallu edrych i'r hirdymor a meddwl am brosiectau a chyfleoedd yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod y sector mentrau cymdeithasol yn cael cymorth i ailgodi.
20. Ni ddylid anwybyddu pwysigrwydd cyllid craidd i fudiadau. Mae hwn yn caniatáu i fudiadau dalu eu costau rhedeg a buddsoddi mewn datblygu eu mudiadau.

PA MOR BAROD YN ARIANNOL YW EICH SEFYDLIAD AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2022-23? SUT GALL Y GYLLIDEB ROI MWY O SICRWYDD I CHI WRTH GYNLLUNIO A RHEOLI CYLLIDBAU O YSTYRIED YR ANWADALRWYDD A'R ANSICRWYDD PARHAUS?

21. Un maes ansicr y mae CGGC yn ei reoli, ynghyd â llawer o elusennau eraill, yw rhwymedigaethau pensiwn. Er yr oedd gan CGGC lefel resymol o gronfeydd wrth gefn, oherwydd COVID-19 a rhagdybiaethau a wnaed gan yr actiwariad, gwnaeth rhwymedigaeth AON, cynllun pensiwn y llywodraeth leol, gynyddu mwy fyth o rwymedigaeth o £100 mil ym mis Mawrth 2019 i rwymedigaeth o £3.35 miliwn ym mis Mawrth eleni. Mae'r cynnydd pellach hwn wedi effeithio ar lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Gan edrych tuag at 2022/23, mae CGGC yn poeni y gallai unrhyw effaith negyddol bellach ar gynllun pensiwn y llywodraeth leol adael yr elusen heb gronfeydd wrth gefn rhydd. Mae sicrhau bod gennym lefel resymol o gronfeydd wrth gefn yn rhan bwysig o wydnwch ariannol y mudiad a sut y mae'n rheoli risg.

22. Bydd diwedd y cynlluniau cyllido Ewropeaidd yn 2023 yn effeithio'n sylweddol ar CGGC, gan ystyried ein rôl o ddarparu grantiau Ewropeaidd i fudiadau gwirfoddol, sydd wedi bodoli ers blynyddoedd. Mae addasu i hyn yn rhan bwysig o gynlluniau CGGC ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.
23. Mae CGGC wedi cyflwyno rhagolygon ariannol pum mlynedd, sy'n ein helpu ni i gymryd camau cynnar i adeiladu ein gwydnwch pan allwn weld problemau posibl ar y gorwel. Mae rheoli'r risgiau uchod yn rhan o'r gwaith hwnnw.
24. Mae CGGC wrthi'n datblygu ei strategaeth bum mlynedd ar gyfer 2022/27 a bydd yn edrych yn benodol ar ei flaenoriaethau a'i adnoddau ar gyfer 2022/23 a'r blynyddoedd dilynol. Po fwyaf sicr ydym ynghylch y cyllid ar gyfer 2022/23 ymlaen, lleiaf fyth yw'r risg sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau a gorau fyth y gallwn gynllunio ar gyfer gwariant effeithiol.
25. Gall cyllideb Llywodraeth Cymru helpu i roi mwy o sicrwydd wrth gynllunio cyllidebau a rheoli cyllidebau mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, po gynharaf y gall penderfyniadau cyllidebu gael eu gwneud, mwya'n byd y gall mudiadau gynllunio. Dylai hyn fod cyn diwedd cyllideb 2021, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyllid. Mae hyn hefyd yn osgoi gwneud i staff deimlo'n ansicr a gorfod dechrau prosesau diswyddo heb angen. Yn ail, byddai cyllidebu mwy hirdymor hefyd yn helpu gyda phroses gyllidebu CGGC – byddai cynlluniau tair neu bum mlynedd o hyd yn ddefnyddiol iawn, oherwydd nid yw ein gweithgareddau yn rhai blynyddol ac yn cwmpasu nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn ein galluogi i gynllunio ymlaen llaw er mwyn cyflawni canlyniadau gwell.
26. Unwaith eto, mae mudiadau gwirfoddol wedi amlygu'r ansicrwydd y mae cylchau cyllido un flynedd yn ei roi iddynt. Mae galw aruthrol am gyllid mwy hirdymor. Mae cyllid un flynedd yn effeithio ar lefelau staff, diogelwch swyddi, iechyd a lles y rheini dan sylw a natur y prosiectau y mae mudiadau'n teimlo y gallant fynd i'r afael â nhw. Mae cyllidebau sy'n ymestyn dros nifer o flynyddoedd sydd, yn ddelfrydol, yn gysylltiedig ag amcanion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, yn hanfodol i sefydlogrwydd a chynaliadwyedd mudiadau'r sector gwirfoddol. Rydym wedi ein calonogi gan sgysiau diweddar â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, sy'n awgrymu cydnabyddiaeth o'r broblem a phenderfyniad i fynd i'r afael â hi.
27. Mae [gwaith ymchwil diweddar gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru](#) yn edrych ar yr effaith gadarnhaol a grëwyd yn sgil bod yn fwy hyblyg ynghylch cyllido yn ystod y pandemig. Dylai hyn barhau.
28. Mae gan lawer o fudiadau swyddi sy'n rhwym wrth gyllid fel yr ICF a Thrawsnewid, ac mae angen eglurder ynghylch beth fydd yn cael ei gynnig yn lle'r ffrydiau cyllido pwysig hyn.

29. Mae'r **Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector** yn ddogfen allweddol i ddarparu'r egwyddorion a'r strwythur ar gyfer sut y cyllidir y sector gwirfoddol.

O YSTYRIED YR ANSICRWYDD PARHAUS A'R AMGYLCHEDD CYLLIDO SY'N NEWID YN GYFLYM, YDYCH CHI'N CREDU Y DYLLID GWNEUD NEWIDIADAU I BROSESAU'R GYLLIDEB A CHRAFFU I SICRHAU TRYLOYWDER DIGONOL AC ATEBOLRWYDD GWEINIDOGOL?

30. Dylai dogfen y Gyllideb nodi'n eglur sut bydd y penderfyniadau a wnaed wrth ei llunio yn fuddiol i'r saith Nod Llesiant. Dylai dogfennau'r Gyllideb yn y dyfodol hefyd nodi sut byddant yn cyflawni nodau'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+.
31. Un opsiwn i gynyddu'r gwaith craffu fyddai i ymwreiddio Cynulliadau Dinasyddion ym mhrosesau gwleidyddol Cymru. Er mwyn ailgodi, mae angen cymunedau gweithredol a chyfranogiad cyhoeddus mewn democratiaeth. Gallai Cynulliadau Dinasyddion chwarae rôl yma. Mae'r sector gwirfoddol mewn sefyllfa dda i gyfeirio cymunedau at wybodaeth am y rhain.

A YW'R FFRAMWAITH CYLLIDOL YN ADLEWYRCHU'N DDIGONOL EFFAITH YR ARGYFWNG IECHYD CYHOEDDUS YNG NGHYMURU O'I GYM HARU Â GWLEDYDD ERAILL Y DU? A YDYCH CHI'N CEFNOGI CYNYYDDU'R TERFYNAU BLYNYDDOL A/NEU GYFFREDINOL I FENTHYCA LLYWODRAETH CYMRU O FEWN Y FFRAMWAITH HWN?

32. Dylai'r pedair gwlad edrych eto ar Fformiwla Barnett yn sgil colli cyllid yr UE. Mae'r golled hon, ynghyd â'r ffaith bod y Gronfa Codi'r Gwastad yn cael ei gweinyddu gan Lywodraeth y DU, yn golygu y dylid ystyried diwygiadau er mwyn atal bylchau cyllido posibl rhag ymddangos, neu fynd yn waeth.

SYLWADAU AR:

... SUT DYLLID TARGEDU ADNODDAU I GEFNOGI ADFERIAD ECONOMAIDD A PHA SECTORAU YN BENODOL Y MAE ANGEN EU BLAENORIAETHU

33. Mae mwy na 49,000 o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru, gan gynnwys dros 6,600 o elusennau cofrestredig. Y rhain sy'n cyflogi 10% o bobl Cymru. Mae 26% o bobl yn gwirfoddoli am o leiaf un diwrnod y flwyddyn. (Ffynhonnell: [Porth Data'r Sector Gwirfoddol.](#))

34. Mae adnoddu'r sector ei hun yn flaenoriaeth, gan ystyried ei rôl o ddarparu gwasanaethau ym mhob cymuned ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys y sector mentrau cymdeithasol, a fydd yn hanfodol yn y gwaith o adfywio economïau lleol a hyperleol.
35. Mae angen cyllid hawdd ei gyrraedd, rheolaidd a hirdymor ar wasanaethau gofal a chymorth rheng flaen er mwyn lleihau'r pwysau ar y GIG a sicrhau bod gan bobl fynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, gan hefyd allu chwarae eu rhan yn eu cymunedau.
36. Dylid ystyried yr Economi Sylfaenol ar bob adeg yn ystod yr adferiad. Mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru barhau i edrych ar gadwyni cyflenwi, gan annog a chefnogi busnesau o bob math i brynu'n lleol, gan felly sicrhau bod arian yn aros o fewn cymunedau a'u bod yn cael cyn lleied â phosibl o effaith ar y newid yn yr hinsawdd. Mae mentrau cymdeithasol mewn sefyllfa ardderchog i gyflwyno buddion i gymunedau.
37. Mae angen buddsoddi mewn sgiliau a chyfleoedd datblygu i'r bobl ifanc hynny a adawodd addysg amser llawn yn ystod y pandemig ac sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith neu hyfforddiant pellach.
38. Cyflwynodd y Rhaglen Lywodraethu nifer o ymrwymïadau i'r sector mentrau cymdeithasol, o ganolfannau cymunedol i gyfleusterau ailgylchu cymunedol, y bydd yn anodd eu bodloni heb gymorth arbenigol y sector gwirfoddol a'r llywodraeth.

... I BA RADDAU Y DYLID BLAENORIAETHU LLINIARU NEWID YN YR HINSAWDD WRTH GEFNOGI ADFERIAD ECONOMAIDD

39. Rhaid i'r holl gynlluniau a phenderfyniadau polisi a wneir gan Lywodraeth Cymru o nawr ymlaen ymwreiddio pryderon o ran yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd o'u mewn a dylent, cyn belled â bod hyn yn bosibl, geisio cynnal ac annog yr ymddygiadau cymunedol ac unigol cadarnhaol newydd sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfyngiadau symud.
40. Wrth lunio eu holl gynlluniau a pholisïau, rhaid i'r llywodraeth leol a chenedlaethol edrych yn fanwl ar yr effeithiau posibl ar y newid yn yr hinsawdd cyn eu rhoi ar waith. Mae hyn wedi ei ddeddfu o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.
41. Dylid buddsoddi'n barhaus mewn prosiectau ynni cymunedol, a fydd nid yn unig yn helpu gyda'r newid yn yr hinsawdd, ond hefyd yn creu swyddi ac yn cyflwyno buddion i economïau lleol.
42. Mae gwydnwch Cymru i ysgytwadau yn y dyfodol yn dibynnu ar allu a hyder cymunedau i baratoi ar gyfer argyfyngau lleol, ymateb iddynt ac i adfer ar eu hôl. Mae'r sector gwirfoddol mewn sefyllfa ddelfrydol i adrodd y materion hyn i'w

Fforwm Gwydnwch Lleol ac i gyd-gynhyrchu datrysiadau gwell.

... SUT DYLLID BLAENORIAETHU ADNODDAU I FYND I'R AFAEL Â'R PWYSAU SYDD I'W DEIMLO MEWN SECTORAU SYDD ANGEN "DAL I FYNY", FEL IECHYD AC ADDYSG

Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed diffiniad y Pwyllgor o 'ddal i fyny' a sut y penderfynwyd ar ba sectorau y mae hyn yn berthnasol iddynt.

43. Dylai ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cymorth fod yn flaenoriaethau, ochr yn ochr â rhaglenni traws-bolisi sy'n cwmpasu, er enghraifft, iechyd a gofal cymdeithasol, neu ofal cymdeithasol ac addysg, ac ati. Rhaid i'r gwasanaethau hyn gael eu cyd-gynhyrchu er mwyn galluogi cymunedau i deimlo perchnogaeth dros y gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn. Mae gan y sector gwirfoddol rôl allweddol i'w chwarae yn hyn, drwy weithio gydag aelodau o'r gymuned i nodi eu hanghenion. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio na ddylid defnyddio'r sector i gymryd lle gwasanaethau cyhoeddus cyfredol a redir gan yr awdurdod lleol.
44. Bydd buddsoddi ymhellach yn y sector yn lleihau'r pwysau ar y GIG, gan wella'r canlyniadau i gleifion. Mae'r Groes Goch wedi amlygu eu gwaith cymorth emosiynol gyda chleifion fel enghraifft, sy'n lleihau'r pwysau ar staff meddygol sydd wedyn yn gallu rhoi sylw i anghenion meddygol cleifion. Byddai mwy o fuddsoddiad mewn gofal bugeiliol hefyd yn fuddiol. Dylid clustnodi adnoddau ar gyfer gofal nad yw'n cael ei ddarparu gan y GIG er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol hanfodol yn gallu parhau.

... POLISI'AU LLYWODRAETH CYMRU I LEIHOU TLODI AC ANGHYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU

45. Dylai'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fod yn brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau cyllidebu. Gellir dadlau mai'r bobl dlotaf sydd wedi'u bwrw waethaf gan y pandemig, gydag enillwyr isel deirgwaith yn fwy tebygol o fod wedi colli eu swyddi neu eu rhoi ar ffyrlo nag enillwyr uchel (Resolution Foundation, 2020).
46. Dylai'r Gyllideb dargedu adnoddau at fentrau sy'n cefnogi tlodi plant – er enghraifft, ehangu'r rhaglen prydau ysgol am ddim a buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar. Fodd bynnag, fel y nodwyd gennym y llynedd, dylid anelu at atal tlodi'n gyfan gwbl, yn hytrach na dim ond ei leihau.
47. Mae buddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol yn helpu i ddod â phobl ynghyd, gan gynnwys yr aelodau hynny o'r gymdeithas sy'n anoddach i'w cyrraedd. Fodd

bynnag, fel y nodwyd ynghynt, mae'n rhaid i'r gwasanaethau hyn gael eu cyd-gynhyrchu er mwyn i gymunedau gymryd perchnogaeth o'r gwasanaethau dan sylw a chael y buddion mwyaf posibl.

48. Byddai mwy o fuddsoddiad yn y Gronfa Cymorth Dewisol yn fuddiol tu hwnt i liniaru effeithiau tlodi. Mae targedu gwaith ar godi ymwybyddiaeth o'r Gronfa yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o'r bobl hynny sydd angen y Gronfa hon yn gallu cael mynediad ati.
49. Mae'r argyfwng tai yn parhau, gyda gwaith ymchwil gan Shelter Cymru yn dangos bod un o bob tri unigolyn yng Nghymru yn byw mewn tai anniogel neu dai rhy ddrud, yn aml yn dewis rhwng talu rhent a phrynu bwyd. Mae un o bob pedwar unigolyn yn byw mewn cartrefi â phroblemau lleithder, llwydni neu anwedd, ac mae oddeutu 315,000 o bobl yn dweud bod cyflwr eu tai yn niweidiol i'w hiechyd meddwl. Rhaid buddsoddi yma i liniaru'r broblem hon. Os na wneir hyn, bydd mwy o bwysau'n cael ei roi ar wasanaethau meddygol rheng flaen.
50. Rhaid buddsoddi digon o gyllid i sicrhau bod camau gweithredu'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cael eu datblygu a bod y canlyniadau gorau yn cael eu cyflawni.
51. Mae tlodi digidol yn bryder parhaus - roedd aelwydydd yn cael anhawster yn aml i ymgysylltu ar-lein, oherwydd diffyg band eang addas, diffyg sgiliau neu anallu i gael gafaél ar y dyfeisiau electronig oedd eu hangen i fynd ar-lein. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi galw am safon byw ddigidol leiaf i Gymru, a byddem yn cefnogi hyn.
52. Gall gofal plant o ansawdd helpu i liniaru tlodi, drwy ymyriadau cynnar, yn ogystal ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau am fod y cyfrifoldeb o ofalu am blant yn syrthio'n aruthrol o anghymesur ar ysgwyddau menywod. Byddai buddsoddi yma yn fuddiol tu hwnt. Mae Mudiad Meithrin hefyd wedi galw am anogaeth i fwy o ddynion weithio ym maes gofal plant.
53. Bob blwyddyn, rydym yn holi pam nad yw meysydd anghydraddoldeb eraill posibl – hil, crefydd, oedran, rhywedd ac ati – yn cael eu cynnwys o fewn cylch gwaith y cwestiwn hwn. Mae'r holl feysydd hyn yn rhai y gallai ac y dylai'r Gyllideb wneud gwahaniaeth go iawn iddynt. Byddai'n amhrisiadwy clywed ffordd o feddwl y Pwyllgor ar hyn.
54. Gofynnwn eto i Lywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod cyfran o'r gyllideb gyffredinol ar gyfer sgiliau a chyflogadwyedd yn cael ei chlustnodi ar gyfer grwpiau anoddach eu cyrraedd, gan gydnabod bod asiantaethau'r sector gwirfoddol yn rhan allweddol o gyflawni hyn.

... DULL GWEITHREDU O RAN GWARIANT ATALIOL A SUT Y CYNRYCHIOLIR HYN WRTH DDYRANNU ADNODDAU

55. Mae'r sector yn cytuno ar bwysigrwydd gwariant ataliol fel modd o leihau costau gofal sylfaenol diweddarach.
56. Dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar wariant ataliol ar ffurf buddsoddi mewn cymunedau a llesiant. Mae'r sector gwirfoddol wedi profi yn ystod y pandemig, a nifer o flynyddoedd cyn hyn, sut mae gwirfoddoli ac ymyrraeth ysgafn gynnar gan elusennau wedi bod yn allweddol o ran lleihau niwed ac atal iechyd meddyliol a chorfforol unigolion rhag gwaethygu. Mae rhaglenni adeiladu ac adfywio cymunedau yn helpu llawer o'r aelodau hynny o gymdeithas sy'n fwyaf ar y cyrion i wneud cysylltiadau pwysig, ennill sgiliau gwerthfawr ac i gael rhagolygon gwell yn gynnar yn eu bywydau. Mae partneriaid Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC) mewn sefyllfa dda i gynorthwyo â'r gwaith hwn.
57. Mae nifer fawr o bobl yn dod allan o'r pandemig yn waeth eu byd nag o'r blaen – yn ariannol, yn feddyliol, yn gorfforol ac yn gymdeithasol. Bydd y cymorth cynnar amrywiol a hyblyg a ddarperir gan ein sector yn hanfodol i atal pwysau afreolus ar wasanaethau cyhoeddus.
58. Mae'r strategaeth Cysylltu Cymunedau yn nodi pwysigrwydd presgripsiynu cymdeithasol i Lywodraeth Cymru, ond rhaid cyflwyno adnoddau sylweddol i grwpiau cymunedol, clybiau chwaraeon ac ati er mwyn iddynt allu ymdrin â'r cynnydd mewn gweithgareddau ar bresgripsiwn yn effeithiol ac yn effeithlon.
59. Dylai cyfran sylweddol o wariant cyhoeddus sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei rhoi ar waith, er mwyn sicrhau bod Cymru ar dir cadarn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan liniaru yn erbyn perygl llifogydd, tlodi, anghydraddoldebau, y newid yn yr hinsawdd a mwy.
60. Awgryma'r Groes Goch y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mwy o gyllid mewn cynlluniau sy'n helpu pobl i ddatblygu strategaethau ymdopi yng ngŵydd argyfyngau yn y dyfodol. Gallai'r sector gwirfoddol fod yn bartner allweddol mewn cynllun o'r fath, gyda'r wybodaeth am gymunedau lleol a gwasanaethau cymorth i helpu pobl i adeiladu eu gwydnwch eu hunain.
61. Dylai'r Gyllideb ddrafft ein galluogi i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg o'r Aseidiadau o Anghenion y Boblogaeth a'r Datganiadau o Sefydlogrwydd y Farchnad.
62. Mae CGGC a'r 19 o CVCs yn gweithio ar, ac yn hyrwyddo [Infoengine](#), sef cronfa ddata o wasanaethau'r sector gwirfoddol, fel offeryn chwilio hanfodol ar gyfer dinasyddion, gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau'r trydydd sector. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r llywodraeth i hyrwyddo'r porth hwn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd er mwyn cynorthwyo â'r agenda ataliol.

... CYNALIADWYEDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS, ARLOESI A THRAWSNEWID GWASANAETHAU

63. Ni ddylid tanbriso rôl y sector mewn gwasanaethau cyhoeddus trawsnewidiol, a dylid ei adnoddau a'i gefnogi – ynghyd â rhoi llais effeithiol iddo ar lefel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – er mwyn sicrhau bod y gwaith hanfodol y mae'n ei gynnig yn parhau ac yn cael ei gryfhau.
64. Er y dylai mudiadau sy'n llwyddo i wneud ceisiadau am gyllid ar gyfer gwasanaethau allu ymgymryd â lefel o arloesedd er mwyn profi syniadau newydd, nid yw hyn yn golygu y dylid anwybyddu dulliau gweithredu sydd wedi hen ennill eu plwyf. Dylid datblygu gwasanaethau sydd eisoes yn gweithio'n dda lle y bo'n briodol.
65. Rhaid parhau â'r gwaith o sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i gael eu hintegreiddio a bod gwasanaethau yn parhau i gael eu 'cydgysylltu', fel yr amlinellwyd yng Nghymru Iachach.
66. Mae CGGC, Canolfan Cydweithredol Cymru a ProMo-Cymru wedi lansio [prosiect Newid](#), sy'n ceisio sicrhau bod sector gwirfoddol Cymru yn manteisio ar gyfleoedd a ddaw yn sgil dulliau gweithredu digidol. Mae digidol yn dod yn bwysicach fyth wrth ddarparu gwasanaethau ac yn ffurfio rhan bwysig o economi Cymru. Mae parhau i fuddsoddi mewn cynhwysiant digidol yn hanfodol. Bydd yn helpu pobl i reoli eu hiechyd a chael gafael ar wybodaeth berthnasol, felly gellir hefyd ei ystyried fel buddsoddi mewn atal.
67. Dylai Llywodraeth Cymru dalu sylw gofalus i wasanaethau a ddarperir ar lawr gwlad er mwyn osgoi dyblygu gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli ar gam.
68. Bydd Cydbwyllgorau Corfforaethol yn cael eu cyflwyno yn 2022. Rhaid i systemau newydd fel Cydbwyllgorau Corfforaethol weithio er budd gwasanaethau cymunedol, nid eu rhwystro neu eu mygu gan fwy o fiwrocratiaeth.
69. Mae'r [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru](#), a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, wedi'u llunio i helpu darparwyr gwasanaethau i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd. Argymhellwn fod pob darparwr gwasanaeth yn eu defnyddio i'w helpu gyda'i gwaith.
70. Mae CGGC yn bartner yn Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Mae **Sylfaen Wybodaeth** y Rhwydwaith yn adnodd defnyddiol dros ben ar gyfer darparwyr gwasanaethau.

... SUT Y MAE TYSTIOLAETH YN LLYWIO GWAITH LLYWODRAETH CYMRU O RAN PENNU BLAENORIAETHAU A DYRANNU'R GYLLIDEB

71. Bob blwyddyn, rydym yn derbyn sylwadau gan y sector nad yw Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n effeithiol i gyfathrebu sut y mae'n ystyried tystiolaeth wrth wneud

penderfyniadau cyllidebu. Mae hyn wedi digwydd eto eleni. Byddai'n werth i Lywodraeth Cymru gynnal gweminar neu sesiwn debyg ar gyfer y sector gwirfoddol yn benodol i ddangos sut mae tystiolaeth yn llywio ei phenderfyniadau cyllidebu.

72. Byddai'n ddefnyddiol gweld dogfen sy'n amlinellu sut mae'r broses benderfynu wedi ystyried galwadau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac, er nad ydynt wedi'u cyhoeddi eto ar eu ffurfiau terfynol, galwadau'r Cynllun Gweithredu LHDTG+ a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

73. Mae ein [Porth Data ar gyfer y Sector Gwirfoddol](#) yn olrhain data sy'n ymwneud â'r sector gwirfoddol mewn nifer o feysydd. Gwahoddwn Lywodraeth Cymru, y sector, cyllidwyr ac ymchwilwyr i barhau i ddefnyddio'r adnodd hwn.

... SUT Y DYLA I LLYWODRAETH CYMRU DDEFNYDDIO PWERAU TRETHU A BENTHYCA

74. Fel y nodwyd y llynedd, dylai arian a godir trwy drethiant a benthyciadau gael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol ac i helpu i'n harwain tuag at greu Economi Sylfaenol llwyddiannus. Ni ddylai'r rheini sy'n dioddef o dlodi orfod dioddef yn anghymesur yn sgil trethiant ychwanegol.

75. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n fwy eang â'r cyhoedd o ran sut maen nhw'n defnyddio'r trethu y maen nhw'n eu derbyn ar hyn o bryd.

... CEFNOGAETH I FUSNESAU, TWF ECONOMAIDD AC AMAETHYDDIAETH AR ÔL I'R CYFNOD PONTIO EWROPEAIDD DDOD I BEN

76. Mae ymgysylltu â'r sector gwirfoddol wrth i weithgareddau a gyllidir gan yr Undeb Ewropeaidd ddod i ben yn hanfodol. Roedd mudiadau'r sector a oedd yn derbyn Cronfeydd Strwythurol yr UE yn diwallu anghenion hanfodol llawer o bobl. Er enghraifft, mae'r prosiect cymorth busnes i fentrau cymdeithasol a gyflwynir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2022 a Chenedl Hyblyg 2 (a gyflwynir gan Chwarae Teg) sy'n cefnogi mentrau bach a chanolig a menywod unigol yn dod i ben yn Nwyrain Cymru yn 2022, ac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ar ddechrau 2023. Bydd rhaglen fuddsoddi Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig hynod o lwyddiannus EYST (Y Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig), sy'n cynnig lleoliadau gwaith i bobl ifanc du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac a gyflwynir gan Gyllid Cynhwysiant Gweithredol, yn dod i ben ym mis Mehefin 2022. Bydd Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC a fydd yn cefnogi 40,000 o'r bobl sydd bellaf o'r farchnad lafur yng Nghymru yn dod i ben flwyddyn nesaf.

77. Rydym yn gwybod y bydd colli cyllid yr UE yn gadael twll enfawr yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid ar gyfer cymorth busnes yn gyffredinol,

prentisiaethau a sgiliau, cyflogadwyedd a seilwaith. Deallwn y bydd angen i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau anodd ynghylch dyfodol llawer o'r gwasanaethau hyn, ond rydym yn poeni y gallai'r penderfyniadau hynny gael eu gwneud heb ymgysylltu'n ddigonol â'r sector gwirfoddol, sydd a mwy o ddealltwriaeth o anghenion unigolion a chymunedau ledled Cymru ar hyn o bryd. Pe na bai'r DU wedi ymadael â'r UE, a bod y cyllid blaenorol yn parhau, byddem yn cymryd rhan mewn sgysiau ystyrlon â swyddogion a Gweinidogion nawr ynghylch nodi'r blaenoriaethau a'r angen – fel oedd yr achos wrth baratoi ar gyfer cyllid Amcan 1 a 2, y Rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd ynghyd â'r rhaglenni cyfredol.

78. Gan ystyried rôl ganolog mudiadau'r sector gwirfoddol o gefnogi'r gwaith o weithredu a chyflwyno llawer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, mae angen ymgysylltiad ystyrlon er mwyn sicrhau, pan wneir penderfyniadau anodd ynghylch blaenoriaethu cyllid, eu bod yn adlewyrchu anghenion cymunedau Cymru.

... BETH YW'R CYFLEOEDD ALLWEDDOL I FUDDSODDIAD Y LLYWODRAETH GEFNOGI 'AILGODI'N GRYFACH'.

79. Bydd ymgysylltiad parhaus, gwirioneddol â'r sector gwirfoddol, sydd â gwybodaeth ddigwyffelyb am gymunedau lleol, yn hanfodol i ailgodi'n gryfach nag o'r blaen. Mae'r ymateb cymunedol anhygoel i'r pandemig, lle y gwnaeth pobl helpu eraill gyda'u siopa, apwyntiadau ysbyty, cludo presgripsiynau a llawer mwy, yn dangos yr hyn y gall cymunedau ei wneud. Rhaid annog cymunedau a buddsoddi ynddynt i helpu i gadw'r momentwm wrth i ni ddod allan o'r pandemig.

80. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol fel angor ar gyfer unrhyw gynlluniau i ailgodi'n gryfach. Pe bai'r Nodau Llesiant yn cael eu cyflawni, byddai'n dangos bod Cymru, heb os, wedi ailgodi'n gryfach.

81. Bydd buddsoddiad i annog pobl i weithio ym maes gofal cymdeithasol yn helpu'r sector gofal i symud ymlaen yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dynnu elw preifat o'r maes gofal. Bydd hefyd yn cynnig buddion hirdymor i'r rheini sy'n derbyn gofal, yn lleihau'r baich ar y sector gofal a'i staff ac yn cyflwyno rhwydwaith o gymorth i gymunedau.

82. Bydd yr adferiad gwyrdd yn hanfodol i 'ailgodi'n gryfach', ac mae gan y Partneriaethau Natur Lleol rôl bwysig i'w chwarae yn hwn, er enghraifft, trwy weithio gyda phartneriaid i nodi gweithgareddau seiliedig ar natur a datblygu strategaethau sgiliau a swyddi gwyrdd gyda chynlluniau prentisiaeth. Fodd bynnag, bydd angen adnoddau a chymorth arnynt i wneud hyn yn effeithiol.

83. Nododd adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, [Effaith COVID-19 ar y sector gwirfoddol](#): ‘Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen o rymuso cymunedau ledled Cymru gyda’r sector gwirfoddol, gan weithredu fel gwladwriaeth alluogi ar gyfer gweithredu cymunedol. Rydym yn cefnogi galwad CGGC y dylai hyn gynnwys Cronfa Cyfoeth Gymunedol a deddfwriaeth i ddarparu mwy o allu i gymunedau gymryd rhan mewn gweithredu lleol’. Dylai’r Gyllideb ddilyn yr argymhelliad hwn a buddsoddi ymhellach yn y sector gwirfoddol, gan gynnwys y seilwaith gwirfoddoli, a cheisio hwyluso Cronfa Cyfoeth Gymunedol. Gallai hefyd helpu i gefnogi’r sector i arallgyfeirio ei incwm o ddibynnu ar y sector cyhoeddus i ddefnyddio ffrydiau mwy cymysg.
84. Dylai’r Gyllideb hefyd edrych ar sut i wella’r cydberthnasau rhwng y sectorau gwirfoddol a chyhoeddus ymhellach. [Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru \(WCPP\) wedi nodi](#) ‘bod rhyngweithiadau rhwng y sector cyhoeddus a’r sector cymunedol wedi datblygu dros amser, “gan fanteisio ar gryfder eu gwahaniaeth, gyda manteision gweithredu cymunedol yn aml yn dod yn uniongyrchol o’r ffaith ei fod ar wahân i’r wladwriaeth, a vice versa”

TRAFODAETH

85. Bydd CGGC yn falch o drafod y pwyntiau hyn neu unrhyw bwyntiau eraill sy’n ymwneud â’r ymateb hwn i’r ymgynghoriad gyda swyddogion, Aelodau o’r Senedd neu Weinidogion yn ôl y gofyn.

David Cook,
Swyddog Polisi, CGGC
dcook@wcva.cymru

Tachwedd 2021